EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## Mehefin 2025

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

**ACTAU 9: 1 -19 Tröedigaeth Saul**
**1** Yn y cyfamser, roedd Saul yn dal i fynd o gwmpas yn bygwth lladd dilynwyr yr
Arglwydd. Roedd wedi mynd at yr Archoffeiriad **2** i ofyn am lythyrau i synagogau
Damascus yn rhoi'r hawl iddo arestio unrhyw un oedd yn dilyn y *Ffordd*. Roedd
ganddo awdurdod i gadw dynion a merched yn y ddalfa a mynd â nhw'n gaeth i
Jerwsalem. **3** Roedd yn agos at Damascus pan fflachiodd golau disglair o'r nefoedd
o'i gwmpas. **4** Syrthiodd ar lawr a chlywed llais yn dweud wrtho: *“Saul? Saul? Pam
wyt ti'n fy erlid i?”*
**5** *“Pwy wyt ti, syr?”* gofynnodd Saul. *“Iesu ydw i,”* atebodd, *“yr un rwyt ti'n ei
erlid.* **6** *Nawr cod ar dy draed a dos i mewn i'r ddinas. Cei di wybod yno beth mae'n
rhaid i ti ei wneud.”*



**7** Roedd y rhai oedd yn teithio gydag e'n sefyll yn fud;
roedden nhw'n clywed y llais ond doedden nhw'n gweld
neb**.** **8** Cododd Saul ar ei draed, ond pan agorodd ei lygaid,
doedd e ddim yn gallu gweld. Felly dyma nhw'n gafael yn ei
law ac yn ei arwain i mewn i dre Damascus. **9** Arhosodd yno
am dri diwrnod. Roedd yn ddall ac yn gwrthod bwyta nac
yfed dim.
**10** Yn byw yn Damascus roedd disgybl o'r enw Ananias
oedd wedi cael gweledigaeth o'r Arglwydd yn galw arno –
*“Ananias!”* *“Ie, Arglwydd,”* atebodd.
**11** A dyma'r Arglwydd yn dweud wrtho, *“Dos i dŷ Jwdas yn Stryd Union a gofyn am
ddyn o Tarsus o'r enw Saul. Mae yno'n gweddïo.* **12** *Dw i wedi dangos iddo y bydd
dyn o'r enw Ananias yn mynd ato a gosod ei ddwylo arno iddo gael ei olwg yn ôl.”*
**13** *“Ond Arglwydd,”* meddai Ananias, *“dw i wedi clywed llawer o hanesion am y dyn
yma. Mae wedi gwneud pethau ofnadwy i dy bobl di yn Jerwsalem.* **14** *Mae'r prif
offeiriaid wedi rhoi awdurdod iddo ddod yma i arestio pawb sy'n credu ynot ti.”*
**15** Ond meddai'r Arglwydd wrth Ananias, *“Dos! Dyma'r dyn dw i wedi'i ddewis i
ddweud amdana i wrth bobl o genhedloedd eraill a'u brenhinoedd yn ogystal ag wrth
bobl Israel.* **16** *Bydda i'n dangos iddo y bydd e'i hun yn dioddef llawer am fy nilyn i.”*
**17** Felly dyma Ananias yn mynd. Aeth i mewn i'r tŷ, gosod ei ddwylo ar Saul a dweud
wrtho, *“Saul, frawd. Mae'r Arglwydd Iesu, wnaeth ymddangos i ti ar dy ffordd yma,*

*wedi fy anfon i atat ti er mwyn i ti gael dy olwg yn ôl, a chei dy lenwi â'r Ysbryd Glân hefyd."* **18** Yr eiliad honno dyma rywbeth tebyg i gen yn syrthio oddi ar lygaid Saul, ac roedd yn gallu gweld eto. Cododd ar ei draed a chafodd ei fedyddio. **19** Wedyn cymerodd rywbeth i'w fwyta, a chael ei gryfder yn ôl.

## NEWID

I rai Cristnogion, mae medru pwyntio at adeg arbennig neu hyd yn oed diwrnod arbennig pan wnaethon nhw benderfyniad i ddilyn Crist yn bwysig. I eraill, efallai y bydden nhw'n teimlo bod eu ffydd wedi dyfnhau fesul gris dros gyfnod o flynyddoedd. Ond yr hyn sy'n wir am y naill fath o stori a'r llall ydy'r gwirionedd fod dod i gysylltiad â Christ yn brofiad sy'n ein newid ni. Mae troedigaeth Saul yn hanesyn dramatig iawn yn y Testament Newydd, gymaint felly fel y mae'n gallu bod yn anodd i ni uniaethu ar unwaith gyda'r hyn ddigwyddodd. Ond wrth edrych yn fanylach ar yr hyn oedd yn mynd ymlaen ym mywyd Saul cyn ei droedigaeth a'r hyn ddigwyddodd wedyn, wrth iddo gymryd yr enw Paul, hwyrach y byddwn yn dod i weld pam roedd e angen newid mawr yn ei fywyd, a pham bod newid yn gallu bod yn llesol i ninnau hefyd. Mae dod yn bobl newydd yn wahoddiad cyson i ni beth bynnag ein hoedran a'n cefndir wrth ddilyn Crist.

## YMDDIRIED

Ond beth ydy rhai o'r newidiadau mawr yma ym mywyd Saul? Cyn ei droedigaeth ar y ffordd i Ddamascus, mae Saul yn ymddangos fel person unigolyddol a phenderfynol iawn oedd yn gwybod ei feddwl ei hun. Wedi ei brofiad dramatig ar y daith, mae'n gorfod dysgu ymddiried yn llais Crist ac oherwydd ei ddallineb mae'n gorfod cael ei arwain gan berson arall gerfydd ei law a derbyn ei ddysgu gan bobl eraill am ffordd newydd y ffydd a dibynnu ar weddïau person arall i dderbyn ei olwg yn ôl.

## CYDNABOD BAI

Roedd Saul wedi ei drwytho'n fanwl yn y Gyfraith Iddewig, ac yn selog dros ei gadw'n fanwl - rhywbeth fyddai'n ei wneud yn berson duwiol, yn ei olwg ef ei hun a llawer o'i gyfoedion mae'n siwr. Ond canlyniad ei sêl oedd ei fod wedi ei gyflyru i chwilio am feiau a gwendidau mewn pobl eraill yn hytrach nag ef ei hun. Wrth gyfarfod Crist mewn gweledigaeth ar y ffordd i Ddamascus, mae Saul yn dod i sylweddoli ei fod ef ei hun ar fai, ei fod wedi bod yn gweithio yn erbyn bwriadau Duw a bod angen iddo fe newid cyfeiriad yn llwyr.

## GWASANAETH

Roedd y syniad o fod yn gyfiawn wedi cymryd drosodd gymaint ym mywyd Saul fel ei fod yn barod i erlid ei wrthwynebwyr a hyd yn oed ganiatáu iddyn nhw gael eu lladd. Wrth ddechrau ar ei fywyd newydd, mae'r dicter oedd yn ei galon i erlid pobl yn troi'n angerdd i siarad iddyn nhw am gariad Duw. Roedd Saul yn gaeth i'w gefndir crefyddol a'i ddiwylliant ei hun, ond roedd y Cristion Newydd, Paul, ar dân i rannu'r newyddion da am Iesu Grist wrth bobl o bob math o gefndiroedd ac ieithoedd. Roedd ei droedigaeth yn ei symud o fod yn erlid bobl i'w gwasanaethu.

## ANGEN NEWID

Mae cyfarfod Crist ar y ffordd i Ddamascus yn ddigwyddiad dramatig iawn ond onid oedd wir angen newid dramatig ym mywyd Saul? Newidiwyd dyn oedd yn hunangyfiawn, yn hunanddibynnol yn llawn casineb ac yn llawn rhagfarnau tuag at bobl o genhedloedd eraill i fod yn genhadwr llawn cariad oedd yn fodlon ymddiried yn Nuw a mynd i bedwar ban y byd i wasanaethu pobl o bob math o gefndir. Yn lle erlid a lladd pobl eraill, roedd y dyn newydd Paul yn fodlon peryglu ei fywyd ei hun dros ei Arglwydd.

## GWEDDI AM NEWID

**Arglwydd Iesu,**
**Helpa ni heddiw i fod yn bobl newydd y Pasg.**
**Paid â gadael i ni fodloni ar aros lle rydym**
**ond agor ein calonnau i fod yn bobl newydd i ti.**
**Symud ni o wybod amdanat i'th garu a'th ddilyn,**
**o fyw'n annibynnol i ymddiried yn llwyrach ynot,**
**o ddicter a beirniadaeth o eraill**
**i weld a chydnabod ein beiau ein hunain**
**a symud ni o ofn ac amheuaeth o bobl sy'n wahanol i ni**
**i'r awydd i wasanaethu pobl o bob hil a chefndir yn dy enw di.**

***Amen.***



## OEDFAON A CHYFARFODYDD MEHEFIN

***Bore Sul, 1 Mehefin***
Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

***Bore Sadwrn, 7 Mehefin, 10am tan 12pm***
Bore Coffi Masnach Deg

***Bore Sul, 8 Mehefin***
Oedfa bob oed dan arweiniad y gweinidog

***Pnawn Iau, 12 Mehefin, 3pm tan 4pm***
Cyfarfod *'paned a sgwrs'*

***Bore Sul, 15 Mehefin*** Trefniant i'w gadarnhau

***Bore Sul, 22 Mehefin***
Oedfa dan arweiniad y gweinidog

***Bore Sul, 29 Mehefin*** Trefniant i'w gadarnhau

## TAITH GERDDED DATHLU CATRIN A WES I GYMORTH CRISTNOGOL.

Fel y gwyddoch erbyn hyn, mae eleni'n flwyddyn arbennig i Gymorth Cristnogol wrth gofio a diolch am 80 mlynedd o frwydro yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder. Mae hefyd yn flwyddyn o ddathliadau personol a theuluol i ni hefyd, a llawer i fod yn ddiolchgar amdano. Felly roedd yn rhaid i ni ymateb i sialens '70km' Cymorth Cristnogol, a'i addasu i gynnwys y dathliadau arbennig i gyd. Penderfynwyd cerdded 85km yn ystod mis Ebrill a Mai. Cyflawnwyd hyn drwy gerdded Llwybr yr Arfordir o Aberogwen i Gonwy, a dilyn Llwybr y Gogledd o Dalybont i Gonwy ar yr ucheldir.

Buom yn ffodus iawn o gael tywydd braf ar bob taith, ac felly'n cael mwynhau y cerdded a'r golygfeydd gwych. Ar yr un pryd, roedd pob milltir a gerddem yn ein atgoffa o'r milltiroedd mae Aurelia a'i chyfoedion yn Guatemala yn cerdded bob dydd i nôl dŵr glân i'w yfed.


*Llyn Pyra*

Roedd un o'n teithiau yn golygu dringo o Ddwygyfylchi at Llyn Pyra, llecyn braf tawel, er mwyn cerdded yn ôl i Lanfairfechan.

Tair wythnos yn ddiweddarach, roedd yn rhaid i ni ddringo nôl i Llyn Pyra er mwyn cerdded ymlaen i Gonwy. Roedd yr olygfa'n wahanol iawn y diwrnod hwnnw. Ar ôl yr holl dywydd braf, roedd y llyn bach bron yn sych.

*Catrin*


*Llyn Pyra bron yn sych*


## CYLCH DARLLEN

Bydd y cyfarfod nesaf
am ddau o'r gloch
bnawn Gwener
y chweched o Fehefin
pan drafodir y nofel

**Tempo**

gan Rhianedd Jewell.

***Dowch i drafod a sgwrsio dros baned.***







RHIANEDD JEWELL

## Y GENHADAETH

Mae 'ENGAGE' cylchgrawn y BMS ar ei newydd wedd. Mae wedi mynd o faint A4 i A5 a rhaid i mi ddweud ei fod yn llawer mwy cyfleus i'w ddefnyddio. Gallaf ei daro yn y bag llaw a'i ddarllen wrth ddisgwyl gweld y deintydd neu'r meddyg ac wrth y bwrdd brecwast ac yn y blaen! Mae'r cynnwys yr un mor ddifyr y tro hwn. Cawn wybod am yr ymateb i Lebanon ac ail adeiladu Eglwys yn Bardai, yng ngogledd Chad. Effeithiwyd ar fywydau cannoedd o filoedd o bobl drwy brosiectau **BMS 2024**. Mae'r cylchgrawn yn ddifyr iawn i bori drwyddo.

Cyn hir, daw rhifyn nesaf **Cwlwm**, cylchgrawn Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru ar gael i bawb yn ddiwahan yn Emaus. Byddant yn cael eu dosbarthu a bydd rhai ar y bwrdd yn y cyntedd. Bydd bocs gonestrwydd i roi 50p i fewn!

***Sian Arwel Davies***




*Mae ein diolch yn fawr i Meriel Parry am ysgogi cyfranwyr
a chasglu'r deunydd ar gyfer y rhifyn yma.*

Ar gyfer rhifyn Gorffennaf 2025 dylid gyrru'r holl ddeunydd
i'r golygydd erbyn y 22ain o Fehefin
gyda copi(cc) i'r Negesydd
ebost : *negesydd@btinternet.com*

# ARWYDDION LLEOL



1



2



3



4



5

***Mae'r arwyddion ffordd hyn nid nepell o Emaus.***

**Llun 1** **Ym mhle y mae'r blwch postio hwn a faint yw ei oed?**
**Llun 2** **Pa goleg sydd ar Ffordd y Coleg?**
**Llun 3** **Ai hwn yw'r unig arwydd sy'n cynnwys y gair 'eilrif'?**
**Llun 4 a Llun 5** **Beth yw tarddiad yr enw Lôn Cariadon, sef Love Lane?**
**A tharddiad yr enw Rhodfa'r Paun, sef Peacock Walk?**


***Mae'r atebion ac awgrymiadau ar dudalen arall***



# AR STEPEN Y DRWS

## Ymhle yn union y mae'r lluniau hyn ar stepen drws Emaus?










1 2 — Ymhle mae Ardal Natur a'r llwybr drwyddi ?

3 — Ymhle y mae CROESO i'r ardal

4 — O ble y gwelir Emaus?

# ATEBION ARWYDDION LLEOL

**Llun 1** Mae'r blwch postio ar ben Lôn Cariadon, y blwch o gyfnod Edward VII fel Brenin o 1901 hyd at 1910

**Llun 2** Mae'r arwydd yn cyfeirio at y Coleg Normal a sefydlwyd yn 1858 ymhell cyn y Brifysgol a sefydlwyd yn 1884

**Llun 3** Bathwyd y gair 'eilrif' yn gymharol ddiweddar – nid oedd yn y gyfrol gyntaf yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru a gyhoeddwyd yn 1966. Erbyn hyn mae'r termau 'eilrif' ac 'odrif' wedi hen ymgynefino.

**Lluniau 4 a 5** Mae'n anodd deall pam y defnyddiwyd Love Lane fel enw ar lôn serth nad yw'n denu cariadon ac anoddach fyth i ddeall pam y defnyddiwyd Peacock Walk fel enw ar lôn gul nad yw'n denu peunod.

Tybed a oes unrhyw gyswllt hanesyddol gyda'r bardd Thomas Love Peacock (1785-1866) neu rywun arall o'i deulu?

## PENBLWYDDI ARBENNIG

*Petai'r person oedd yn cael ei benblwydd ar Fai 23 yn cyhoeddi'r wybodaeth yma, fe fyddai, mae'n siwr, yn gosod pos i ni ddyfalu ei oed. Y tro yma nid oes angen gwneud hynny.*
*Yn gyfleus iawn y mae'r pos oedd yn Negesydd Mai yn addas hefyd i ddarganfod oed Gareth Ffowc Roberts, a oedd yn dathlu ei benblwydd ar y dyddiad uchod. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau.*

**Un arall sydd yn dathlu penblwydd arbennig iawn ydy Jane Roberts.**
**Ar Mai 25 yr oedd Jane yn dathlu ei phenblwydd yn 90 ac rwy'n siwr fod pawb yn dymuno anfon eu dymuniadau gorau a llongyfarchiadau penblwydd hapus iawn.**

*CYFRANIAD GAN MERIEL PARRY*

## MIS MAI

Wrth glirio dogfennau oddi ar y cyfrifiadur, sydd yn brysur rhedeg allan o le yn ei gof, deuthum ar draws darn ysgrifennais ar gyfer Y Negesydd ym Mai 2020, y flwyddyn o gaethiwed yn dilyn cyfyngiadau ‘Covid’. Yno roeddwn yn gresynu na fyddwn yn gallu mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fel yr arferwn bob blwyddyn. Dim paratoi’r garafan, dim llwytho gormodedd o ddillad ‘rhag ofn’ iddi fod yn braf/gwlyb/gwyntog/poeth/cenllysg ac unrhyw gyfuniad arall mae rhywun wedi profi yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Fel un sy’n gwirfoddoli gyda’r Urdd, ac wedi gwneud ffrindiau lu dros y blynyddoedd, roedd colli cyfarfod a chael sgyrsiau gyda phawb yn siom fawr.

Llynedd, roedd rheswm arall na allwn helpu yn ystod yr wythnos ym Meifod. Cefais ddwy lawdriniaeth yn ystod mis Mai 2024, ond fe gefais ymweld a’r maes am ddeuddydd yn unig a chyfarfod cymaint o ffrindiau, rhai yn gwybod am fy nhriniaeth, eraill ddim! Fe fu staff a gwirfoddolwyr yr Urdd yn gefnogol tu hwnt, yn union fel bu aelodau o Emaus. Gwerthfawrogais pob cardyn, cacen, blodau, anrhegion, ymweliadau lu gan gymaint ohonoch ac i mi roedd yn profi pa mor werthfawr ydy cefnogaeth teulu’r capel.

Ymlaen i 2025, mae’r garafan wedi ei llwytho, digon o lyfrau i Wil, gan y byddaf yn gweithio am 8 bob bore, a digon o ddillad ac esgidiau ar gyfer pob tywydd ym Mharc Margam lle cynhelir

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a’r Fro 2025

**Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr.**

Amseru ac edrych ar ôl y beirniaid fyddaf yn ystod yr wythnos a rhyfeddu ar dalentau’r plant a phobl ifanc.

### TALENT

*‘Nid oes neb yn fyw*
*Heb ryw dalent ganddo’*

Cawn ein diddori a’n synnu gan blant a phobl ifanc hynod o dalentog sy’n canu, llefaru, dawnsio, siarad cyhoeddus heb anghofio’r arlunio, gwaith celf a chrefft, ysgrifennu straeon coginio, barddoni a llu o gystadlaethau eraill. Gwledd i’r glust a’r llygaid!

Rhaid cofio a diolch heddiw i’r fyddin o bobl sy’n meithrin y plant i ddatblygu’r talentau hyn. Yn athrawon, gwirfoddolwyr, rhieni a ffrindiau sy’n rhoi oriau, yn ddi-dâl, i sicrhau fod y plant yn cael y cyfleoedd gorau i gystadlu. Mae’r gallu i hyfforddi yn dalent yn ei hun.

Yn anorfod fe fydd y geiriau *‘ Cymryd rhan sy’n bwysig’* neu *‘Wedi cael cam’* i’w glywed ar ambell aelwyd ac mae’n bwysig fod plant yn gwybod sut i ymdopi â siom a sylweddoli beth ydi’r petha pwysig mewn bywyd ac nid cystadlu yn unig sy’n rhoi cyfle iddynt ddangos eu talentau.

Mae dangos caredigrwydd drwy air a gweithred, parodrwydd i wrando a helpu rhai llai ffodus hefyd yn dalent roddwyd i ni gan yr Arglwydd.

***O! am wneud yn fawr***
***Beunydd o’n talentau;***
***O! am ras bob awr—***
***Gras i wneud ein gorau.***
***Yna yn y ne’,***
***Gyda’r glân angylion,***
***Bydd gan Iesu le***
***I bob un fu’n ffyddlon.***

Elfed.

# CORNEL POSAU GARETH

**ATEB I BOS PEN-BLWYDD MAIR**

**MAE MAIR YN 80 oed**

## POS MEHEFIN 2025




## POS CORLANNU DEFAID

Mae 49 dafad
wedi cael eu hel mewn
corlannau yn y farchnad,
6 dafad yr un
mewn rhai corlannau
a 5 dafad yr un
mewn corlannau eraill.
Sawl corlan oedd hynny?

***Bydd yr ateb yn rhifyn Gorffennaf.***

## BLODAU EMAUS




*Diolch i Jennifer,*
*Marian ac Enid*
*am roi blodau yn ystod*
*mis Mai.*

### MIS MEHEFIN

1. Marian Ifans
8 a 15 Mair Gray
22 a 29 Anwylyd Jones

Diolch
Meriel a Kath

***merielparry@gmail.com***

# CYFEIRIADUR EMAUS

ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

BMS:
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@gmail.com
364665

GWEINIDOG:
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

MASNACH DEG:
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

NEGESYDD – CYSODI:
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

NEGESYDD – ROTA GOLYGU:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

PANED A SGWRS
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
lisjenthomas@gmail.com
362125

ROTA BLODAU
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

ROTA'R ORGAN:
Enid Griffiths
712726

SWYDDOG DIOGELU:
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@gmail.com
364665

TI A FI:
Elen Lansdown
lansdownelen@gmail.com
364843

TRYSORYDD:
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

YSGRIFENNYDD ARIANNOL:
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243